**Kirsty Williams AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)/0452/17

Lynne Neagle AM
Cadeirydd - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

6 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

**Grant Gwella Addysg**

Yn sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Ionawr, addewais anfon nodyn ar y Fframwaith Perfformiad Addysg, y fframwaith deilliannau ar gyfer y Grant Gwella Addysg i Ysgolion. Atodaf y nodyn hwnnw yma.

Rydym wedi treialu'r Fframwaith Perfformiad Addysg yn 2016-17 fel rhan o'r trefniadau monitro ar gyfer y Grant Gwella Addysg i Ysgolion. Cyflwynwyd y fframwaith gyda'r nod o symud y grant tuag at drefniant sy'n fwy seiliedig ar ddeilliannau.

Mae'r fframwaith yn nodi tri amcan lefel uchel cyffredinol. I gefnogi hyn, rhaid i gonsortia a'u hawdurdodau lleol bennu dangosyddion perfformiad allweddol a deilliannau mesuradwy fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Dylai'r rhain ategu ein strategaeth addysg, Cymwys am Oes.

Y tri gofyniad lefel uchel o fewn y fframwaith yw y bydd awdurdodau lleol yn parhau i weithio'n unol â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan arwain at:

- wella addysgu a dysgu;
- gwella deilliannau addysg, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, a hynny ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, grwpiau o ddysgwyr y gwyddys eu bod yn agored i risg o dangyflawni megis materion yn ymwneud â rhyw'r disgyblion, disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol, neu ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, megis sipsiwn a theithwyr; a
- Gwella deilliannau i ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a lleihau'r bwlch rhyngddynt â'r disgyblion eraill.

Yr awydd i weithio gyda chonsortia ac awdurdodau lleol, yn hytrach na gorfodi ffordd genedlaethol o weithio, er mwyn deall ffyrdd o gasglu tystiolaeth a data oedd y tu ôl i'r syniad o gyflwyno'r fframwaith perfformiad cyfredol. Fel yr amlinellais ar 12 Ionawr yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, fe arhosaf am adroddiad terfynol y Pwyllgor, ond ar y mater hwn mae'n glir bod angen inni edrych eto ar sut i alinio ein gwaith rheoli perfformiad ar gyfer consortia ac awdurdodau lleol gyda'n blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn benodol gymwys i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion, ond credaf fod cyfleoedd, pan fyddwn yn ailwampio Cymwys am Oes, i edrych ar yr heriau o sicrhau y defnyddir fframwaith yn seiliedig ar ddeilliannau'n ehangach ym maes addysg.

Mae consortia'n derbyn bod amrywiaeth yn yr wybodaeth a geglir ar lefel ranbarthol ac maent wedi cytuno i weithio gyda fy swyddogion i adolygu sut y caiff gwybodaeth ei chasglu ar hyn o bryd. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad y pwyllgor.

Yn gywir



**Kirsty Williams AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**